

Atodiad 2

Amserlen arsylwi gwers 2

Amserlen Arsylwi

Manylion y wers : Dyniaethau, 50 munud, Bl.7 gallu cymysg.Gwers: **Twristiaeth ar hyd traethau Gwyr**

Ffocws yr arsylwi: Asesu cyfoedion
Adborth mae disgyblion yn roi i ddisgybl trwy ddefnyddio 2 seren a dymuniad.
Ymateb disgyblion i'r adborth.

Cyfarwyddiadau (athro)

1. Sicrhau sylw disgyblion

2. Eglurder yn amcanion y dasg

3. Sicrhau dealltwriaeth o ofynion y dasg

4. Cyfeirio at y dull o asesu

5. Cyfeirio/ creu meini prawf llwyddiant

X	Cyfri o 1-3
X	Gofyn iddynt ail adrodd cyfarwyddiadau
X	Defnyddio fel cynllun marcio

Graddfa lles ac ymglymiad Leuven

Wrth ddefnyddio'r raddfa: ceir cyfnodau arsylwi o 5 munud gyda seibiant o 10 munud rhwng pob cyfnod.

Disgybl	Graddfa lles	Graddfa ymglymiad	Nodiadau arsylwi
1) Cyfnod ases(olaf)	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	Blinder gwers cyntaf ar ddydd Llun. Pen ar y bwrdd, chwarae gyda beiro Dim ar dasg Angen cymhell i wneud gwaith
2	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	Parhau gyda'r gwaith yn dawel fach, ddim yn tynnu sylw mewn modd negyddol neu cadarnhaol.
3	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	Mwynhau'r dasg ac eisiau parhau gyda'r weithgarwch.
4	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	

Cyfartaledd/crynhof

Disgybl	Graddfa lles	Graddfa ymglymiad	Nodiadau arsylwi	Unrhyw fater arall
1	1 2 3 4 5	1 2 3 4 5	Diffyg canolbwyntiad, nid oedd y disgybl yn fodlon i rannu ei gwaith. Roedd y disgybl yn roi'r gorau i'r gwaith yn fuan ac yn dangos diffyg ymroddiad llawn. Roedd y disgybl yn brysur heb wir ganolbwyntiad.	
2	1 2 3 4 5	1 2 3 4 5	Roedd y disgybl yn eithaf niwtral nid oedd unrhyw rhinweddau amlwg yn dangos fodlonrwydd nac anfodlonrwydd. Roedd y disgybl yn dangos arwyddion amlwg o ymwneud ond nid oedd y ffocws yn gyson. O bosib roedd adegau o sylw arwynebol.	
3	1 2 3 4 5	1 2 3 4 5	Dangos bodlonrwydd gyda'r dasg ond nid mewn modd eithafol. Roedd y disgybl yn ymwneud yn ddi-dor gyda'r gweithgarwch. Roedd y disgybl yn amlwg yn mwynhau'r gweithgarwch ac yn dangos cymhelliant uchel.	
4	1 2 3 4 5	1 2 3 4 5		

Atodiad 3

Amserlen arsylwi gwerns 1

Amserlen Arsylywi



8) Manylion y wers (e.e gwerns Cymraeg 50 munud, Bl. 7 gallu cymysg, cyd-destun y wers e.e awduron o'r gorffennol)

Ffocws yr arsylywi: Asesu cyfoedion

Adborth mae disgyblion yn roi i ddisgybl trwy ddefnyddio 2 seren a dymuniad.

Ymateb disgyblion i'r adborth.

Cyfarwyddiadau (athro)

1. Sicrhau sylw disgyblion
2. Eglurder yn amcanion y dasg
3. Sicrhau dealltwriaeth o ofynion y dasg
4. Cyfeirio at y dull o asesu
5. Cyfeirio/ creu meini prawf llwyddiant

X
X
X
X
X

Graddfa lles ac ymglymiad Leuven

Wrth ddefnyddio'r raddfa: ceir cyfnodau arsylywi o 5 munud gyda seibiant o 10 munud rhwng pob cyfnod.

Disgybl	Graddfa lles	Graddfa ymglymiad	Nodiadau arsylywi
1)	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	Disgybl ar dasg drwy gydol y wers ac yn hapus i asesu cyfoedion.
2	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	Braidd yn siaradus ar ddechrau'r wers ond yn gweithgar ar y cyfan. Disgybl yma i weld yn hapus i asesu cyfoedion.
3	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	Disgybl yma i weld yn hapus i asesu cyfoedion.
4	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	1 2 3 4 5 1 2 3 4 5 1 2 3 4 5	Yn cyfrannu'n gyson i'r wers. Disgybl i weld yn hapus i asesu cyfoedion.

Cyfartaledd/crynhoi

Disgybl	Graddfa lles	Graddfa ymglymiad	Nodiadau arsylywi	Unrhyw fater arall
1	1 2 3 4 5	1 2 3 4 5		
2	1 2 3 4 5	1 2 3 4 5		
3	1 2 3 4 5	1 2 3 4 5		
4	1 2 3 4 5	1 2 3 4 5		

Atodiad 4

Cyfweliad disgyblion astudiaeth gwrs 1

Cwestiynau Cyfweliad

Cwestiwn	Adborth
1. Beth oeddech chi'n ei feddwl o wneud asesu cyfoedion?	Disgybl 1 - Meddwl bod e'n ffordd dda o asesu. Disgybl 2 - Ffordd o ddysgu mwy o bethau. Disgybl 3 - Ffordd dda o asesu oherwydd nid oes modd newid ateb rhaid derbyn adborth a'r y gwaith gwreiddiol. Disgybl 4 - Ffordd hwyl a da o asesu ac hefyd yn wahanol.
2. Sut oeddech chi'n teimlo am wneud asesu cyfoedion?	Disgybl 1 - Teimlo'n dda- teimlo fel ei bod wedi derbyn gwybodaeth mewn ffordd effeithiol. Disgybl 2 - ocei, ar y cychwyn ddim moyn ond ar ol dysgu sut i wneud e hoffi gwneud e. Edrych ac yn swnio'n ddiflas yn y lle cyntaf. Dim yn hapus gyda fy nghyfoed oherwydd ma fe'n wan yn y Gymraeg ac felly doedd e ddim yn gwybod beth i wneud ac felly roedd e'n anheg. Disgybl 3 - Hapus i dderbyn adborth. Disgybl 4 - Hapus oherwydd roedd fy mhartner yn gallu helpu fi oherwydd mae hi'n dda yn y Gymraeg.
3. Beth wyt ti'n hoffi orau am asesu cyfoedion?	Disgybl 1 - Hoffi darllen a deall a chymhwyso'r gwybodaeth i helpu cyfoed. Disgybl 2 - Hoffi darllen gwaith eraill a gweld syniadau rhywun arall. Disgybl 3 - Hoffi roi adborth drwy 2 seren a dymuniad a bod y dymuniad ar ffurf cwestiwn. Disgybl 4 - Gweld ymateb cyfoed wrth iddynt ddarllen fy ngwaith.
4. Beth oeddech chi'n ei feddwl o wneud asesu enghreifftiol?	Disgybl 1 - Gwybodol a hwyl. Disgybl 2 - Gwell nag asesu cyfoedion, mae'n mwy diddorol a ti'n dysgu mwy. Disgybl 3 - Hoffi e'n well na asesu cyfoedion Disgybl 4 - Bydde fi'n dewis enghraifft dros asesu cyfoedion.
5. Beth wyt ti'n hoffi orau am asesu enghreifftiol?	Disgybl 1 - Teimlo fel bo ti gallu cynllunio beth i wneud o ran gwaith dy hun. Disgybl 2 - Enghraifft yn fwy cymhleth na'r hyn oeddwn i yn mynd i allu wneud. Ond gallu defnyddio fel cymorth. Disgybl 3 - Pawb yn cael yr un peth ar y cyd, neb yn wahanol. Disgybl 4 - Dim fel llythyr fi. Ond gosod nod a targed i gwneud gwaith i'r un safon. Gwell cael enghraifft.

Atodiad 5

Cyfweliad disgyblion astudiaeth gwers 2

Cwestiynau Cyfweliad

Cwestiwn	Adborth
1. Beth oeddech chi'n ei feddwl o wneud asesu cyfoedion?	Disgybl 1- Meddwl bod A.C yn ffordd dda o wella gwaith disgyblion. Disgybl 2- Diddorol gweld beth mae disgyblion eraill wedi cynnig fel ateb i'r cwestiynau. Disgybl 3- Hoffi gwneud asesu cyfoedion weithiau ond dim ond os rydym yn cyfnewid llyfrau gyda ffrind.
2. Sut oeddech chi'n teimlo am wneud asesu cyfoedion?	Disgybl 1- Wedi mwynhau gwneud A.C yn ystod y wers heddiw, fwy hawdd na rhoi llyfrau i'r athro i farcio yn aml. Disgybl 2- Hoffi gwneud A.C ar y cyfan gan ein bod yn helpu i ffrindiau gwella'i gwaith. Disgybl 3- Teimlo'n hapus i wneud asesu cyfoedion yn ystod y wers heddiw, gan fod y meini prawf llwyddiant ar y bwrdd ar flaen y dosbarth, roedd asesu gwaith ffrind yn hawdd.
3. Beth wyt ti'n hoffi orau am asesu cyfoedion?	Disgybl 1- Hoffi gweld os rydw i wedi cael yr atebion yn gywir a gweld os mae pobl eraill yn y dosbarth wedi cael yr atebion yn gywir yn ogystal. Disgybl 2- Hoffi teimlo fel athro a defnyddio pen gwyrdd i asesu gwaith rhywun arall. Disgybl 3- Hefyd hoffi teimlo fel athro ond bydd well gen i ddefnyddio pen coch. Hefyd yn hoffi derbyn adborth o rywun arall.
4. Beth oeddech chi'n ei feddwl o wneud asesu enghreifftiol?	Disgybl 1- Hoffi gwneud asesu enghreifftiol gan ein bod yn gallu gweld enghreifftiau da a drwg o dasgau gwahanol. Disgybl 2- Hefyd yn hoff iawn o asesu enghreifftiol, gan ein bod yn gallu gweld pa gamgymeriadau ni ddylem wneud ein hun. Disgybl 3- Fel A.C, mae asesu enghreifftiol yn gallu helpu pobl sydd ddim yn deall y dasg yn llwyr.
5. Beth wyt ti'n hoffi orau am asesu enghreifftiol?	Disgybl 1- Os rydym yn ansicr, mae asesu enghreifftiol yn gallu helpu disgyblion i ddeall y gwaith yn well. Disgybl 2- Os rydym yn gwneud gwaith ysgrifennu, mae asesu enghreifftiol yn gallu rhoi syniadau i ni am beth i ysgrifennu amdano. Disgybl 3- Mae asesu enghreifftiol yn gallu helpu pawb yn y dosbarth gwella ei gwaith ac mae'n ddefnyddiol i asesu enghreifftiau da a drwg, yna rydym ni yn gwybod y gwahaniaeth rhyngddynt.

Atodiad 6

Adfyfrio astudiaeth gwrs 1

Model Brookfield Adfyfrio ar Astudiaeth gwrs	Nodiadau adfyfiriol
Hunangofiannol. <i>Yn dilyn y wers beth aeth yn dda? Ardaloedd i wella? Adfyfrio ar y profiad? Beth oeddech yn teimlo?</i>	Roedd y disgyblion yn gallu gweld cysylltiad rhwng meini prawf llwyddiant a gosod adborth adeiladol ar waith cyfoedion. Yn ddelfrydol byddaf wedi gwirio bod bob disgybl yn hapus gyda'r strwythur o asesu drwy'r dull 2 seren a dymuniad, teimlais fel fy mod wedi brysio dros y darn er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn cyflawni'r gweithgarwch yn y wers. Roedd y profiad o gael disgyblion i ddeall sut i roi adborth adeiladol yn heriol ac rwyf yn deall pam fod rhai yn ffafrio asesu enghreifftiol yn well oherwydd mae modd paratoi adborth enghreifftiol hefyd.
Llygaid y dysgwr <i>Yn dilyn cyfweiliad beth sydd gan y dysgwr i ddweud am y wers?</i>	Roedd y disgyblion wedi mwynhau'r gweithgaredd a'r wers. Roeddent yn dangos hoffter at yr agweddau o asesu a oedd yn ymwneud a darllen gwaith eraill a gweld ymateb eraill i'w gwaith. Roedd y disgyblion yn datgan eu hoffter at asesu enghreifftiol dros gyfoed ond hefyd roeddent yn dweud bod e'n hwyl i wneud asesu mewn ffordd wahanol gan werthfawrogi'r ffordd roeddwn wedi cyflwyno'r gweithgarwch.
Cyd-weithwyr/Cyfoed <i>Beth sydd gan gyd-weithiwr i ddweud wedi arsylwi'r wers?</i>	Dywedodd fy mhartner ymchwil fod y wers yn ddiddorol ac wedi ei chynllunio'n addas. Roeddwn wedi cyflwyno asesu cyfoedion gan lunio cymorth addas ar gyfer y disgyblion gan ragweld y rai o bosib na fyddai yn gallu rhoi adborth yn annibynnol gan felly enghreifftio adborth iddynt.
Llenyddiaeth. <i>Beth sydd gan lenyddiaeth i ddweud am y pwnc?</i>	Mae asesu cyfoedion yn bwnc dadleuol iawn ymysg athrawon a llenyddiaeth. • Pwyslais ar feini prawf a rhestrau wirio • Pwysleisio dealltwriaeth disgyblion • Rôl adborth yng ngwaith a'r cylch asesu • Cyfeiriad at rôl a statws athro yn y broses o asesu a rhoi adborth Awduron: Dylan Wiliam, Paul Black, Allison a Tharby, Sutton Trust, ESTYN, Shirley Clarke,

Atodiad 7

Adfyfrio astudiaeth gwers 2

Model Brookfield Adfyfrio ar Astudiaeth gwers	Nodiadau adfyfiriol
Hunangofiannol. <i>Yn dilyn y wers beth aeth yn dda? Ardaloedd i wella? Adfyfrio ar y profiad? Beth oeddech yn teimlo?</i>	Yn gyffredinol, credaf fod y wers wedi bod yn lwyddiannus. Gan ein fod yn edrych ar asesu cyfoedion ar gyfer y brosiect ymchwil yma, credaf ei fod wedi cael ei ddefnyddio yn perthnasol yn y wers. Roedd meini prawf llwyddiant y dasg ar gael i'r disgyblion wrth iddynt marcio gwaith ei gilydd ac osod targedau/adborth, yn meddwl fod y disgyblion ei gallu sicrhau bod y targedau a osodwyd yn gwbl perthnasol. Wrth asesu cyfoedion, credaf fod y disgyblion wedi cynyddu ei ddealltwriaeth o'r testun o dan sylw, ac wrth dderbyn targedau penodol, fod nhw nawr yn ymwybodol o ofynion y dasg asesu sydd i ddod yn y wersi flaenorol.
Llygaid y dysgwr <i>Yn dilyn cyfweiliad beth sydd gan y dysgwr i ddweud am y wers?</i>	Roedd y disgyblion, ar y cyfan wedi mwynhau'r wers. Gan fod rhaid iddynt cerdded o gwmpas yr ystafell i gasglu wybodaeth, credaf ei fod nhw wedi mwynhau wneud gweithgaredd yn wahanol i'r arfer. O ran yr asesu cyfoedion, nid oedd y dysgwyr yn pryderu ormod am cyfnewid ei gwaith gyda disgybl eraill, er wnaeth un dysgwr dweud roeddent yn fwy gyfforddus yn gwneud hyn, gan ei fod yn cyfnewid gwaith gyda ffrind. Ar y cyfan, mae'r dysgwyr yn hoffi asesu cyfoedion ond hefyd yn gwerthfawrogi asesu enghreifftiol.
Cyd-weithwyr/Cyfoed <i>Beth sydd gan gyd-weithiwr i ddweud wedi arsylwi'r wers?</i>	Dywedodd fy mhartner ymchwil fod y wers wedi ei baratoi yn effeithiol a bod asesu cyfoedion wedi cael ei ddefnyddio o fewn y wers ei hun. Roedd e hefyd yn arfer dda i ddangos y meini prawf llwyddiant i'r disgyblion wrth iddynt asesu cyfoedion gan fod hun yn rhoi well syniad i'r disgyblion o ran sicrhau fod ei targedau yn perthnasol wrth ymweld a gwaith rhywun arall.

Llenyddiaeth. <i>Beth sydd gan lenyddiaeth i ddweud am y pwnc?</i>	Mae <u>asesu enghreifftiol yn bwnc dadleuol iawn ymysg athrawon a llenyddiaeth.</u> • <u>Pwyslais ar feini prawf a rhestrau wirio</u> • <u>Pwysleisio dealltwriaeth disgyblion</u> • <u>Rôl adborth yng ngwaith a'r cylch asesu</u> • <u>Cyfeiriad at rôl a statws athro yn y broses o asesu a rhoi adborth</u> <u>Awduron: Dylan Wiliam, Allison a Tharby, Sutton Trust, ESTYN, Shirley Clarke</u>
--	---